AMGUEDDFA CYMRU

Sesiwn Gyhoeddus Bwrdd yr Ymddiriedolwyr – Cofnodion

Dydd Mercher 11 Awst 2026 am 16:00 – 17:00

Microsoft Teams

Ymddiheuriadau:

John Hunt, Ymddiriedolwr
Justin Morris, Ymddiriedolwr
Cai Wilshaw, Ymddiriedolwr
Emma Yhnell, Ymddiriedolwr
Jane Richardson, Prif Weithredwr
Nia Elias, Cyfarwyddwr Cysylltiadau a Chyllido

Aelodau'r Bwrdd a oedd yn Bresennol:

Kate Eden
Rhys Evans
Hywel John
David Aled Jones
Huw George
Owen Hathway
Clare Pillman
Dan Richards
Freya Stannard
Richard Thomas
Jan Williams

Aelodau'r Tîm Gweithredol a oedd yn Bresennol:

Phil Bushby, Cyfarwyddwr Rhaglenni sy'n Flaenoriaeth
Peter Holt, Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro
Peter Wakelin, Cyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro
Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu

Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:

Max Looker, Pennaeth Llywodraethu

Yvonne Ruelle, Pennaeth Cyllid

Chris Pyrah, Swyddog Llywodraethu

Phil Roberts, Llywodraeth Cymru (ymunodd am 4.45pm)

1. Agor y Cyfarfod

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

I. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
II. Ni roddwyd gwybod i'r Cadeirydd am unrhyw ddatganiadau ychwanegol o fuddiant.
III. Wedyn, nododd y Cadeirydd y canlynol:
    i. Roedd rhagolwg diwygiedig y gyllideb yn bwynt sicrwydd hollbwysig i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, ac roedd y Bwrdd yn chwilio am hyder bod gan Amgueddfa Cymru afael gadarn a chredadwy ar ei sefyllfa ariannol ar gyfer gweddill 2025/2026. Roedd angen i'r rhagolwg diwygiedig fod yn gadarn a chael ei reoli'n weithredol.
    ii. Roedd angen i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr weld y canlynol a chael sicrwydd yn eu cylch:
        - Bod y rhagdybiaethau sy'n sail i'r rhagolwg diwygiedig yn gadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn briodol.
        - Bod tystiolaeth amlwg bod y sefyllfa o ran y gyllideb yn cael ei rheoli'n weithredol ac mewn modd disgybledig.
        - Bod atebolrwydd am bob maes yn y gyllideb, bod perchnogaeth glir wedi'i chlustnodi ar gyfer unrhyw fylchau mewn atebolrwydd, a bod cynlluniau credadwy ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw risgiau.
    iii. Roedd rhagolwg diwygiedig y gyllideb wedi tynnu sylw at yr angen am Gynllun Adfer ar gyfer 2027/28, er mwyn dychwelyd Amgueddfa Cymru i sefyllfa ariannol hirdymor gynaliadwy, gan gofio y dylid disgwyl sefyllfa wastad o ran arian parod gan Lywodraeth Cymru am y blynyddoedd nesaf.

2. Ailosod y Gyllideb yn ystod y Flwyddyn a'r Effaith ar Gronfeydd wrth Gefn

Noddwr a Chyflwynydd: Peter Holt, Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro

I. Cyflwynwyd yr eitem gan Peter Holt, Prif Swyddog Gweithredu Dros Dro, a ddywedodd y canlynol:
    i. Roedd staff Amgueddfa Cymru yn gofyn i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr wneud y canlynol:
        - Cymeradwyo'r gyllideb ddiwygiedig a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn cyfyngedig ac anghyfyngedig a nodir ynddi.
        - Nodi bod Cynllun Adfer ar gyfer Amgueddfa Cymru yn cael ei lunio.

- Nodi bod Cynllun Ariannol tair blynedd yn cael ei ddatblygu, ac y byddai'n cael ei gyflwyno yng nghyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Medi 2026.
- Cymryd sicrwydd o'r ffaith y bydd adroddiadau newydd ar fanylion ariannol allweddol yn cael eu cyflwyno bob mis i Gadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (ARAC) a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Chasgliadau (FPCC).

ii. Roedd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr eisoes wedi cymeradwyo cyllideb ar gyfer 2026/2027 yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2026, ond canfuwyd bod y gyllideb hon yn hepgor ymrwymiadau a oedd eisoes yn bodoli.

iii. Roedd addasiadau i ddarparu ar gyfer ailosod y gyllideb a phwysau ariannol eraill, gan gynnwys ailglustnodi gwariant cyfalaf fel gwariant refeniw, yn golygu bod gan Amgueddfa Cymru gyfanswm gorwariant o tua £3,200,000.

iv. Roedd pwysau sylweddol ar gronfeydd wrth gefn Amgueddfa Cymru, ac nid oeddent yn gynaliadwy y tu hwnt i 2026/2027.

v. Roedd costau staff bellach yn cynrychioli 91% o wariant cymorth grant refeniw, sy'n dangos cynnydd ers rhaglen Llywio Ein Dyfodol, pan oedd costau staff wedi cael eu lleihau i 81% o wariant cymorth grant refeniw.

vi. Roedd y Prif Weithredwr wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am bryderon ynglŷn â sefyllfa ariannol Amgueddfa Cymru.

vii. Roedd Cynllun Ariannol tair blynedd yn cael ei ddrafftio i'w gyflwyno yng nghyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Medi 2026, ac roedd Cynllun Adfer yn cael ei ddatblygu.

II. Nododd Nia Williams, Cyfarwyddwr Profiad, Addysg ac Ymgysylltu y canlynol:

i. Roedd yr Uwch-dîm Gweithredol yn cydnabod nad oedd y gyllideb hon wedi cael ei pharatoi nac wedi bod yn destun craffu yn y modd sydd fel arfer yn briodol.

ii. Ym mis Mai 2026, roedd yr Uwch-dîm wedi cynnal adolygiad manwl o'r gyllideb gyda'r Pennaeth Cyllid er mwyn canfod meysydd lle y gellid arbed costau. Roedd yr adolygiad hwn yn cwmpasu holl weithgarwch Amgueddfa Cymru ac yn canolbwyntio ar y meysydd â'r risg isaf i'r sefydliad. O ganlyniad i hynny, cafodd y cyllidebau ar gyfer profiad ymwelwyr, arddangosfeydd a marchnata i gyd eu lleihau a chafodd rolau staff newydd nad oeddent wedi'u penodi eu hadolygu o'r newydd a'u dadflaenoriaethu. Roedd y sefydliad yn ystyried rhewi gweithgarwch recriwtio ar gyfer pob rôl nad oedd yn cael ei hystyried yn hanfodol ar gyfer sicrwydd y sefydliad.

iii. Roedd cronfeydd wrth gefn cyfyngedig hanesyddol yn cael eu defnyddio ar gyfer meysydd gwariant, lle bo defnydd o'r fath yn cael ei ystyried yn briodol.

III. Rhoddodd Yvonne Ruelle, Pennaeth Cyllid, sicrwydd ynglŷn â'r defnydd o gronfeydd wrth gefn gan nodi'r canlynol:

i. Roedd y defnydd o gronfeydd wrth gefn cyfyngedig yn destun craffu trylwyr cyn iddo ddigwydd. Er mwyn defnyddio cronfeydd wrth gefn

cyfyngedig, roedd angen i o leiaf ddau aelod o'r Uwch-dîm Gweithredol gymeradwyo gwariant arfaethedig.

ii. Roedd yr arian mewn cronfeydd wrth gefn cyfyngedig yn cael ei fuddsoddi ac, ar y cyfan, dim ond elfen buddsoddi cyffredinol cronfeydd wrth gefn cyfyngedig oedd yn cael ei defnyddio.

iii. Nid oedd cronfeydd wrth gefn cyfyngedig wedi cael eu defnyddio mewn modd amhriodol wrth ailosod y gyllideb ar gyfer 2026/2027, nac yn y gyllideb wreiddiol ar gyfer y flwyddyn.

IV. Nododd Kate Eden, Cadeirydd, fod angen y canlynol ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, yn ychwanegol at y ddau argymhelliad a oedd wedi'u hamlinellu yn y papur a rannwyd cyn y cyfarfod:

i. Cynllun ariannol tymor canolig, yn seiliedig ar ragdybiaeth arian parod wastad, i gael ei gyflwyno yng nghyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Medi 2026.

ii. Dadansoddiad o weithlu Amgueddfa Cymru, i gael ei gyflwyno yng nghyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Medi 2026.

iii. Cynllun Adfer ar gyfer 2027/2028, i gael ei gyflwyno yng nghyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Medi 2026.

iv. Newid i'r ffordd y caiff cronfeydd wrth gefn cyfyngedig eu rheoli a pholisi cliriach ar gronfeydd wrth gefn.

v. Adroddiadau misol ar y gyllideb gan y Prif Weithredwr i Gadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a Chadeiryddion ARAC ac FPCC.

V. Yn dilyn hynny, cafwyd trafodaeth lle y tynnwyd sylw at y canlynol:

i. Roedd yr hysbyseb ar gyfer Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu wedi cael ei chyhoeddi, ac roedd Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu Dros Dro hynod brofiadol wedi cael ei benodi ar gontract dros dro nes i'r penodai parhaol gael ei recriwtio.

ii. Byddai Amgueddfa Cymru yn gofyn i'r Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu Dros Dro adolygu arferion ariannol y sefydliad a gwneud unrhyw newidiadau gofynnol i'w drefniadau rheoli cyllidebau a llunio rhagolygon, yn ogystal â rhoi rhaglen o hyfforddiant rheoli cyllidebau ar waith drwy'r sefydliad cyfan.

CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu Dros Dro i adolygu arferion ariannol y sefydliad a gwneud unrhyw newidiadau gofynnol i'w drefniadau rheoli cyllidebau a llunio rhagolygon. (Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu Dros Dro).

CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu Dros Dro i roi rhaglen o hyfforddiant rheoli cyllidebau ar waith drwy'r sefydliad cyfan ar gyfer yr holl ddeiliaid cyllidebau. (Cyfarwyddwr Cyllid a Llywodraethu Dros Dro).

iii. Byddai Amgueddfa Cymru yn gofyn i'w Archwilwyr Mewnol gynnal archwiliad o drefniadau llywodraethu ariannol i'w gyflwyno i ARAC ac yna i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

CAM GWEITHREDU: Yr Archwilwyr Mewnol i gynnal archwiliad o drefniadau llywodraethu ariannol Amgueddfa Cymru yn ystod Chwarter 3 2025/2026. (TIAA)

iv. Roedd yr Uwch-dîm Gweithredol, gyda'r Pennaeth Cyllid, wedi craffu ar gyllideb 2025/2026 fesul llinell ym mis Mai 2026, gan ganolbwyntio ar yr hyn y gellid ei leihau neu ei ohirio. Roedd yr Uwch-dîm yn cydnabod y byddai angen i'r ymarfer hwn fynd ymhellach ar gyfer cyllideb 2026/2027, a dyna pam roedd y Cynllun Adfer yn cael ei lunio hefyd. Byddai'r gwaith hwn yn cynnwys asesiad manwl o weithgarwch i'w osgoi, ei ohirio neu ei leihau.

CAM GWEITHREDU: Papur ar adolygu proses cyllideb 26/27, gan gynnwys rhestr o eitemau i'w hosgoi/eu gohirio/eu lleihau a phwyntiau dysgu myfyriol a risgiau a ganfuwyd fel rhan o eitemau a gaiff eu hepgor/eu lleihau, i gael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf FPCC. (Uwch-dîm Arwain)

v. Roedd nifer o gwestiynau o hyd ynglŷn â'r defnydd o gronfeydd wrth gefn a pholisi Amgueddfa Cymru ar eu defnyddio. Gofynnodd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr am wybodaeth a sicrwydd ychwanegol ynghylch y defnydd o gronfeydd wrth gefn yn y sefydliad.

CAM GWEITHREDU: Papur ar gronfeydd wrth gefn i gael ei gyflwyno i ARAC, ynghyd â'r nodyn a luniwyd gan y Pennaeth Cyllid ar y defnydd o gronfeydd wrth gefn cyfyngedig penodol ar gyfer 26/27. (Pennaeth Cyllid)

vi. Roedd yr angen i ailosod y gyllideb yn dangos bod angen ailosod trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol yn y sefydliad ac, fel y gallai llawer o'r pwysau ar y gyllideb fod wedi'i ragweld, y gallai mwy o reolaethau fod wedi cael eu rhoi ar waith na'r hyn a oedd yn bresennol yn wreiddiol.

vii. Gofynnwyd pa wersi a ddysgwyd o'r profiad hwn a sut roedd y Cynllun Adfer yn cael ei fframio a'i lunio er mwyn sicrhau cynaliadwyedd am sawl blwyddyn, ac nid dim ond cynaliadwyedd ar gyfer 2026/2027.

viii. Byddai'r Cynllun Adfer yn canolbwyntio ar ddychwelyd gwariant i lefelau cymorth grant, gan ragdybio sefyllfa wastad o ran arian parod yn y dyfodol. Byddai'r cynllun yn ystyried yr holl weithgarwch ar bob safle a pha weithgarwch y gellid rhoi'r gorau iddo o bosibl.

ix. Wrth lunio'r Cynllun Adfer, dylid ystyried p'un ai dim ond £3,200,000 y dylid ei dynnu allan o'r gyllideb, neu a ddylid creu mwy o hyblygrwydd ar yr un pryd er mwyn i Amgueddfa Cymru allu cyflawni ei hamcanion strategol.

x. Nodwyd y byddai'n rhaid i'r Uwch-dîm gydweithio fel tîm gweithredol ar Gynllun Adfer a gofynnwyd am sicrwydd pellach ynghylch datblygu'r cynllun. Dylai'r Cynllun Adfer fod yn un traws-sefydliadol.

CAM GWEITHREDU: Yr Uwch-dîm Gweithredol i roi nodyn i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr yn amlinellu sut mae'r Cynllun Adfer yn cael ei lunio. (Uwch-dîm Arwain)

xi. Atgoffwyd yr Ymddiriedolwyr bod angen i unrhyw gynlluniau dileu swyddi gael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r Uwch-dîm Gweithredol yn ystyried rhewi swyddi gwag a defnyddio contractau cyfnod penodol lle y bônt yn briodol. Nodwyd nad oedd cydberthyniad awtomatig rhwng cynnydd yn nifer y cyflogeion a chynnydd mewn defnydd o gymorth grant refeniw, gan fod cyfrif wedi cael ei roi am rywfaint o gynnydd mewn staff mewn meysydd eraill yn flaenorol, h.y. drwy'r defnydd o staff asiantaeth a oedd bellach wedi dod o dan gontractau mewnol.

xii. Cydnabuwyd y gallai rhoi'r gorau i weithgarwch neu ei atal dros dro beri rhwystredigaeth i'r staff, ond roedd gwaith eisoes yn mynd rhagddo i liniaru effeithiau achosion o oedi yn sgil yr angen i newid cyllid a oedd wedi'i glustnodi'n gyllid cyfalaf o'r blaen yn gyllid refeniw.

xiii. Soniodd y Cadeirydd am gyfarfod â Chyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Dysgu, Cymunedau a Diwylliant yn Llywodraeth Cymru lle y trafodwyd y sefyllfa ariannol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Nododd fod y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn ymwybodol o'r cyfarfod Bwrdd hwn a'r camau gweithredu yn y papur.

xiv. Roedd yn bwysig bod y Cynllun Adfer yn cynnwys hyblygrwydd wrth gefn ar gyfer y dyfodol, er mwyn i Amgueddfa Cymru allu addasu i dirwedd ariannol ansicr o hyn ymlaen.

xv. Gan fod llawer mwy bellach yn hysbys am y problemau presennol o fewn yr ystad a'r seilwaith ategol, roedd yr Uwch-dîm Gweithredol yn teimlo bod ganddo afael fwy cadarn ar faterion hanesyddol, a oedd yn cael eu lliniaru drwy ailosod y gyllideb. Ar y cyd â hyn, roedd yr eglurder a gafwyd ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng cyllid cyfalaf a chyllid refeniw yn golygu y gellid clustnodi eitemau yn unol â safonau cyfrifyddu Llywodraeth Cymru o hyn ymlaen.

xvi. Er mwyn helpu'r Uwch-dîm i wneud yr hyn roedd angen iddo ei wneud, dylai Bwrdd yr Ymddiriedolwyr drafod egwyddorion cyllidebu gyda'r Uwch-dîm er mwyn rhoi arweiniad strategol iddo.

xvii. Er mwyn i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Uwch-dîm werthfawrogi sefyllfa ariannol Amgueddfa Cymru yn llawn, roedd angen gwneud rhagor o waith arfarnu ar brosiectau unigol, yn ogystal â chyflwyno'r gyllideb refeniw ochr yn ochr â'r gyllideb gyfalaf yn gliriach. Byddai hyn yn fodd i asesu risgiau cysylltiedig yn well.

CAM GWEITHREDU: Cyflwyno'r gyllideb gyfalaf o gymharu â'r gyllideb refeniw yn fwy cyflawn, ynghyd â chostau prosiect ailddatblygu Amgueddfa Lechi Cymru ac NMC 100, erbyn cyfarfod nesaf FPCC a chyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ym mis Rhagfyr 2026. (Uwch-dîm Arwain)

xviii. Roedd angen edrych yn fanylach ar Flaengofrestr Cynnal a Chadw Amgueddfa Cymru, er mwyn i bwysau ariannol yn y maes hwnnw allu cael eu hasesu a'u hymgorffori mewn blaengynlluniau.

CAM GWEITHREDU: Adolygiad o'r Flaengofrestr Cynnal a Chadw i gael ei chynnwys ar agenda cyfarfod nesaf y Pwyllgor Pobl, Adnoddau a Diwylliant (PRCC). (Tîm Llywodraethu Corfforaethol)

xix. Yn dilyn y drafodaeth, roedd angen diweddaru'r Gofrestr Risg i gynnwys y sefyllfa ariannol bresennol a'r rhagolwg ariannol ar gyfer 2027/2028.

CAM GWEITHREDU: Diweddaru'r Gofrestr Risg drwy ychwanegu risg strategol yn seiliedig ar y sefyllfa ariannol bresennol a risg strategol yn seiliedig ar y rhagolwg ariannol ar gyfer 2027/2028. (Tîm Llywodraethu Corfforaethol)

PENDERFYNWYD: CYMERADWYODD yr Ymddiriedolwyr y gyllideb wedi'i hailosod.

CYMERADWYODD Bwrdd yr Ymddiriedolwyr y defnydd o gronfeydd wrth gefn i sicrhau cyllideb fantoledig.

PENDERFYNODD Bwrdd yr Ymddiriedolwyr fod ANGEN iddo gael y dogfennau canlynol ar gyfer ei gyfarfod ym mis Medi 2026:

- **Cynllun ariannol tymor canolig yn seiliedig ar ragdybiaeth arian parod wastad**
- **Dadansoddiad o weithlu Amgueddfa Cymru**
- **Cynllun Adfer ar gyfer 2026/2027, yn seiliedig ar ragdybiaeth arian parod wastad, er mwyn sicrhau model gweithredu cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.**

PENDERFYNODD Bwrdd yr Ymddiriedolwyr fod ANGEN y canlynol arno:

- **Newid i'r ffordd y caiff cronfeydd wrth gefn cyfyngedig eu rheoli a pholisi cliriach ar gronfeydd wrth gefn.**
- **Adroddiadau misol ar y gyllideb gan y Prif Weithredwr i Gadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a Chadeiryddion ARAC ac FPCC.**

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i bawb a oedd yn bresennol am eu cyfraniad heddiw ac am y gwaith roedd yr Uwch-dîm Gweithredol yn ei wneud. Nododd y dylai'r sefyllfa bresennol a'r sefyllfa yn y dyfodol fod yn gliriach i'r Bwrdd erbyn hyn, a bod y Bwrdd nawr yn disgwyl i'r lefel hon o eglurder a rheolaeth ariannol weithredol gael ei chynnal a pharhau i fod yn weladwy wrth i ni symud drwy weddill y flwyddyn.

---

3. Unrhyw Fater Arall

Noddwr a Chyflwynydd: Kate Eden, Cadeirydd

I. Ni chodwyd unrhyw eitemau o dan Unrhyw Fater Arall yn y cyfarfod.

Diwedd Sesiwn Gyhoeddus Bwrdd yr Ymddiriedolwyr